

PARK PLAZA



MOETHUSRWYDD A SOFFISTIGEIDDRWYDD YNG NGHANOL Y DDINAS

Mae Gwesty'r Park Plaza mewn man delfrydol yng nghanol y ddinas ger Castell Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Neuadd y Ddinas, ac o fewn pellter cerdded hawdd o'r holl atyniadau poblogaidd eraill a Chanolfan Siopa Dewi Sant. Mae'r gwesty 4 seren boutique moethus a thrawiadol hwn yn cynnig 129 o ystafelloedd modern wedi'u haerdymheru, cyfleusterau sba â phwll nofio a champfa a defnydd o ryngwrwyd cyflym ym mhob rhan o'r gwesty.

Gyda theras preifat â golygfeydd o'r rhodfa goediog, gallwch fwynhau pryd o fwyd yn ein bwyty Laguna Kitchen & Bar, a enillodd wobr Bwyty'r Flwyddyn yng Ngwobrau Bwyd a Diod y South Wales Echo. Gallwch flasu ein bwydleni creadigol wedi'u cynllunio o amgylch cynnyrch tymhorol ffres a lleol.

Cyn swper gallwch fwynhau coctêl neu wydraid o win yn Laguna Bar, enillydd y Bar Coctêl Gorau yng ngwobrau'r cylchgrawn Cardiff Life. Yn yr haf gallwch fwynhau te prynhawn clasurol ar ein teras gan edrych dros Amgueddfa Genedlaethol Cymru a lawntiau Neuadd y Ddinas.

Gall pob gwestai fwynhau defnydd am ddim o'r pwll nofio dur gwrthstaen 20 medr cynnes, yr ystafell stêm a'r bath sba, neu fanteisio ar y gampfa deulawr gwyth, sy'n llawn offer ymarfer corff. Rydym hefyd yn cynnig wyth ystafell therapi a lolfa ymlacio er mwyn i chi allu

mwynhau un o'n triniaethau harddwch Elemis. Mae'r Laguna Spa newydd ddwyn y teitl 'Sba Harddwch Gorau' yng ngwobrau Cardiff Life 2016 a'r 'Gorau yn y Diwydiant Hamdden' yng Ngwobrau Rhanbarthol 2016.

Mae'r gwesty'n cynnig 129 o ystafelloedd deniadol a modern, sy'n amrywio o Ystafelloedd Uwch safonol i Swits. Mae system aerdymheru a rheolyddion gwres ym mhob ystafell, yn ogystal â rhyngwrwyd diwifr cyflym am ddim, sgrîn deledu plasma, bar bach, desg, haearn a bwrdd smwddio, cyfleusterau paratoi te a choffi a choffor sy'n addas ar gyfer gliniaduron. Ceir llechi llwyd ym mhob ystafell ymolchi ynghyd â sychwr gwallt sydd wedi'i leoli'n gyfleus ger drych mawr.

Mae ein hystafelloedd Uwchraddol, ein Swits a'n Swits Llai yn addas ar gyfer teuluoedd ac yn cynnig gwelyau enfawr, pecyn mwy eang o ddeunydd ymolchi, defnydd o wn gwisgo, sliperi a hambwrdd croeso arbennig wrth gyrraedd.

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!



Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

